**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 11eg Ebrill, 2017 at 2.00 pm**

**PRESENT:** County Councillors: R. Edwards, P. Jones, A. Wintle, D Hudson and A. Easson

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Nicola Perry | Senior Democracy Officer |
| Julie Boothroyd | Head of Adult Services |
| Chris Robinson | Lead Commissioner - Quality Assurance |

**APOLOGIES:**

Councillors R. Harris, R. Chapman, M. Hickman and D Hill

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni wnaed unrhyw ddatganiad o fuddiant gan Aelodau.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

3. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

4. **Cyd-bwyllgor Dethol (Craffu'r Gyllideb) - 31 Ionawr 2017**

Cadarnhawyd cofnodion y Cyd-bwyllgor Dethol (Craffu'r Gyllideb) a gynhaliwyd ar 31ain Ionawr 2017 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

5. **Cydbwyllgorau Dethol Plant a Phobl Ifanc ac Oedolion: 6 Chwefror 2017**

Cadarnhawyd cofnodion y Cyd-bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Dethol Oedolion a gynhaliwyd ar 6ed Chwefror 2017 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

6. **Pwyllgor Dethol Arbennig Oedolion (Tai Fforddiadwy) - 14 Chwefror 2017**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Dethol Arbennig Oedolion (Tai Fforddiadwy) a gynhaliwyd ar 14eg Chwefror 2017 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

7. **Cydbwyllgor Dethol (Model Darpariaeth Amgen) - 27 Chwefror 2017**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor Dethol (Model Darpariaeth Amgen) a gynhaliwyd ar 27ain Chwefror 2017 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

8. **Pwyllgor Dethol Oedolion: 28 Chwefror 2017**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Dethol Oedolion a gynhaliwyd ar 28ain Chwefror 2017 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 11eg Ebrill, 2017 at 2.00 pm**

9. **Gwariant Grant Cefnogi Pobl**

**Cyd-destun**

Pwrpas yr adroddiad yw i Aelodau'r Pwyllgor ystyried cynigion Rhaglen Grant Cefnogi Pobl (RhGCP) ar gyfer 2017/18 a chytuno'r Cynllun Gwariant arfaethedig.

**Materion Allweddol**

Mae'r Dyraniad Grant Dangosol ar gyfer 2017/18 yn awgrymu y bydd y lefel gyllido'r un fath ag ar gyfer 2016/17 - £2,039,175.00. Mae gan fwyafrif contractau RhGCP Sir Fynwy ddyddiad terfynu/adolygu ar Fawrth 2019.

Mae'r canllawiau a gysylltir â'r Grant yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau sicrhau bod natur y Cyllid Grant yn ddeiliadaeth ynghyd ag yn niwtral o ran oedran. Mae'r galw am gefnogaeth yn seiliedig ar dai i bobl hŷn wedi lleihau gyda'r amrywiad contract o 10% a ganiateir yn cael ei weithredu yn y prif gontract i bobl hŷn yn dod i ben, y darparwr wedi rhoi rhybudd ei fod yn terfynu'r contract.

Bydd cefnogaeth i bobl hŷn wedyn ar gael drwy'r model yn seiliedig ar le a'r Porth. Gwasanaeth generig cymorth fel y bo'r angen yw hwn ac mae dadansoddiad o'r deilliannau a gyflenwir gan y gwasanaethau generig yn dangos y darperir cymorth i'r holl gategorïau cefnogi ac felly, yr holl nodweddion gwarchodedig. Rheolir y trefniadau pontio drwy'r Porth a fydd yn sicrhau y caiff yr holl bobl sydd ar hyn o bryd yn derbyn cymorth eu hanghenion wedi'u hailasesu ac y cânt wedyn eu cyfeirio at y gwasanaeth cyflenwi priodol a fydd yn cwrdd â'u hanghenion.

Yn 2016/17, datblygwyd dwy fenter beilot bwysig – cymorth i'r Di-gartref a llesiant a chymorth cynhwysiant cymdeithasol, y ddwy fenter o fewn y mentrau'n seiliedig ar le. Tra nad aeth y mentrau rhagddynt yn llawn tan Fedi/Hydref 2016, bu cynnydd sylweddol yn y deilliant a gyflawnir.
Bydd mynediad i bobl hŷn yn bennaf nawr drwy'n gwasanaeth Porth gyda'i weithwyr cymorth cysylltiedig yn y timoedd yn seiliedig ar leoedd.

Dynodwyd sefyllfaoedd yn ddiweddar lle nad aeth y rhaglen Cefnogi Pobl i'r afael yn llawn ag anghenion pobl iau a phobl sy'n gadael gofal. Mae'n bwysig cymryd camau gweithredu cadarnhaol i sicrhau bod y nodwedd fregus a gwarchodedig hon yn cael ei chefnogi'n briodol. Neilltuir adnodd dynodedig yn y cynllun gwariant.

Mae'r rhan fwyaf o'r contractau'n rhedeg tan fis Mawrth 2019; mae lefelau cyllido'n dal heb eu newid, ac mae'r fenter yn seiliedig ar leoedd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn i'r rheiny sydd angen cymorth yn y cymunedau. Mae'r ffordd newydd hon o weithio'n caniatáu i gymorth gael ei ddarparu yn seiliedig ar angen a heb ei gysylltu'n unig â'r fan lle mae person yn byw.

Mae demograffeg Sir Fynwy wedi gwneud ein pobl hŷn yn angen blaenoriaethol, fodd bynnag, mae'r anghenion cymorth ar gyfer y categori hwn wedi newid dros y blynyddoedd ac maent wedi lleihau. Mae gweithio mwy clos rhwng y gwasanaethau Oedolion a'r Personau Iau wedi dangos bod angen cymorth pellach wedi'i dargedu at bobl ifanc yn gadael gofal.

**Craffu Aelodau**

Cyflwynodd Arweinydd Cefnogi Pobl a Phennaeth y Gwasanaethau Oedolion gyd-destun yr adroddiad. Yn dilyn y cyflwyniad, gwnaeth yr Aelodau sylwadau fel a ganlyn:

Gofynnodd Aelod a oedd Llywodraeth Cymru (LlC) yn parhau i adhawlio cyllid na chafodd ei wario neu ar gyfer prosiectau anghymwys. Mewn ymateb eglurwyd bod adolygiad gwasanaeth

yn cael ei gynnal bob blwyddyn ac mae'n wybyddus bod awdurdodau eraill wedi gorfod ad-dalu arian pan gafodd ei wario ar brosiectau anghymwys.
Mewn ateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor, eglurwyd y gall categoreiddio'r bobl sy'n derbyn cymorth fod yn broblematig. Gwasanaeth generig a chymorth fel y bo'r angen yw prif bwyslais darpariaeth gwasanaeth ac yn gyffredinol, mae cymorth yn seiliedig ar dai yr un fath ar draws unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig. At ddibenion cofnodi, gofynnwyd i'r Cyngor gategoreiddio cleientiaid sy'n derbyn cymorth a gall hyn wedyn fod yn ddryslyd pan wneir cymariaethau.

Mewn ymateb i ymholiad pellach, cadarnhawyd mai 1400 yw nifer y bobl sydd angen cymorth (mewn cyferbyniad â nifer llai o bobl gyda llawer o wahanol anableddau).

Ceisiwyd eglurhad ynghylch categorïau heb eu cofnodi, yn benodol tra ceir ffigurau ynghylch cam-drin menywod yn y cartref, nid oes sôn am gam-drin dynion yn y cartref, hefyd pobl ag anableddau corfforol a chyflyrau hir dymor. Eglurwyd bod y rhain wedi'u cynnwys dan gymorth generig fel bo'r angen ac nid dan gategori penodol. Ychwanegwyd bod gan rai awdurdodau lleol brosiectau penodol ar gyfer y mathau hyn o grwpiau ond mae Sir Fynwy'n darparu mwy o gymorth generig yn seiliedig ar anghenion. Eglurwyd, dros y cyfnod diwethaf, i un ar ddeg o ddynion dderbyn cymorth o ganlyniad i gam-drin yn y cartref na chafodd ei gofnodi ar wahân gan fod hwn yn wasanaeth gochelgar a ddarperir yn bennaf, ond nid yn gyfangwbl, ar gyfer menywod ac mae'n wasanaeth sy'n seiliedig ar angen.

Codwyd ymholiad pellach ynghylch cydnabod cam-drin pobl hŷn a chadarnhawyd bod ffigurau ar gyfer y maes hwn ond nad oes gwasanaeth ar wahân, o ganlyniad i gyfyngiadau cyllid. Heriwyd bod cam-drin pobl hŷn yn gategori arwyddocaol i'w gofnodi a chadarnhawyd, pan ysgrifennir y strategaeth, darperir gwybodaeth arwyddocaol ar y modd y darperir cymorth.

Gofynnodd Aelod beth oedd goblygiadau contract y bobl hŷn yn dod i ben. Eglurwyd bod adnodd wedi'i roddi i'r gwasanaeth yn seiliedig ar leoliadau ac yn ystod y pontio tan ddiwedd y contract, bydd pawb yn cael eu hanghenion wedi'u hailasesu. Os yw anghenion yn dynodi'r person fel person cymwys, caiff ei gyfeirio drwy'r Porth at ddarparwr priodol i weithiwr cymorth yn seiliedig ar leoedd neu ddarparwr arall yn seiliedig ar angen a blaenoriaeth. Mewn ymateb i gwestiwn, gwadwyd y byddai toriadau, yn hytrach caiff pobl eu cefnogi ond mewn ffordd wahanol.

Gofynnodd Aelod gwestiwn ynghylch Larymau Cymunedol Careline ac eglurwyd y gallai'r RhGCP ond cyllido rhan o'r gwasanaeth larymau (51 ceiniog yr wythnos i bob larwm). Ychwanegwyd bod y gweithredwr wedi lleihau'r tâl wythnosol i 41 ceiniog ac mae'r galw wedi gostwng (ni chaiff 300 o unedau eu cyllido bellach o ganlyniad i ostyngiad mewn galw). Eglurwyd nad yw rhai awdurdodau lleol yng Nghymru bellach yn talu am larymau cymunedol a gellid o bosib ystyried hyn yn y strategaeth yn y dyfodol. Holwyd a oedd dull mwy effeithiol, mwy cyfoes ar gael ond eglurwyd y bydd tâl y ganolfan alwadau'n aros yr un fath, waeth beth fydd y dechnoleg a ddefnyddir. Eglurwyd hefyd fod gan gynlluniau tai newydd dechnoleg yn rhan o'r system. Yn ychwanegol, mae unigolion yn defnyddio'u technoleg eu hunain megis ffonau symudol, felly, gallai cynnydd mewn technoleg oddiweddyd yr angen am wasanaethau larwm.

Gwnaeth y Cadeirydd sylw bod peth dryswch ymhlith yr Aelodau e.e. preswylwyr mewn tai cysgodol ynghylch gwasanaethau larwm a hefyd ynghylch cymorth fel bo'r angen. Pwysleisiodd yr angen i'r holl ddarparwyr weithio gyda'i gilydd ac awgrymodd bod angen symleiddio pwy sy'n darparu'r gwahanol wasanaethau ac ar gyfer pwy. Cadarnhawyd bod amrywiol wasanaethau a chymorth a allai ddod o wahanol ffynonellau ond cadarnhaodd bod yr holl ddarparwyr gwasanaeth yn siarad â'i gilydd a bod ganddynt yr un pwrpas a'r un egwyddorion. Awgrymodd y

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 11eg Ebrill, 2017 at 2.00 pm**

Swyddog fod dadl y gallai LlC ystyried symud clustnodi cyllid Cefnogi Pobl gan ei fod yn gymorth person-ganolog (er mwyn osgoi drysu'r unigolyn).

Gwnaeth Aelod o'r cyhoedd sylw ei bod yn deall nad oedd y strategaeth pobl hŷn bresennol yn ddyledus i'w hadolygu tan 2023 a gwnaeth sylw hefyd ynghylch y tanwariant yn cael ei ddefnyddio i gyllido swydd Cydlynydd Pobl Ifanc. Nodwyd bod y tanwariant yn effeithio ar un contract yn unig ac y byddai ar gael i gefnogi pobl. Holwyd a ddarperid cyhoeddusrwydd i ddynodi pa arian fyddai'n cael ei wario ar gyfer pobl dros 55 oed. Eglurodd y swyddog fod LlC yn nodi bod yn rhaid i gyllid cefnogi pobl fod yn niwtral o ran oedran a deiliadaeth a chaiff cymorth, felly, ei ddyrannu yn ôl yr angen a'r flaenoriaeth am gymorth yn seiliedig ar dai. Ychwanegwyd, pan fydd un o'r prif ddarparwyr yn rhoi rhybudd o derfynu contract, roedd yn amserol symud tuag at un o'r mathau hyn o gontractau. Cadarnhawyd na fyddai'r cyhoeddusrwydd yn nodi'r angen am dai, waeth beth fyddai'r oedran, yr anabledd ayyb.

| |
|---|
| **Sylwadau'r Cadeirydd**<br>Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd Cefnogi Pobl am ei adroddiad.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn cytuno i argymell bod yr agwedd a amlinellir yn yr adroddiad yn cael ei chymeradwyo. Gwnaed cais bod y strategaeth yn cael ei chraffu, pan gaiff ei drafftio, gan y Pwyllgor Dethol. |

**10. <u>Cyflwyniad gan y Cyngor Iechyd Cymunedol</u>**

**Materion Allweddol**
Gwahoddwyd y Prif Swyddog ar gyfer Cyngor Iechyd Cymuned Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB) i'r cyfarfod i roddi diweddariad ar waith y Cyngor Iechyd Cymuned.

**Craffu Aelodau**
Ar ôl derbyn y cyflwyniad, gwnaeth yr Aelodau sylwadau a holi cwestiynau fel a ganlyn:

Cyfeiriodd Aelod at swyddogaeth y CIC yn cynrychioli buddiannau'r cyhoedd i'r BIPAB a gofynnodd beth oedd ei safiad ar symud unedau mân anafiadau yn Sir Fynwy i Ysbyty Nevill Hall. Ymatebwyd bod y CIC yn chwarae rhan flaenllaw, yn gweithio gyda BIPAB, gan weithredu unrhyw newidiadau mewn gwasanaeth er mwyn sicrhau y caiff safbwyntiau cleifion eu hystyried.

Holwyd ymhellach sut mae aelodau'r cyhoedd i dderbyn a mewnbynnu gwybodaeth gan nad yw cyfarfodydd y CIC yn agored i'r cyhoedd. Mewn ymateb, eglurwyd bod ymwybyddiaeth o'r CIC yn her ac yn uchel ar ei agenda ond ychwanegodd, pan fydd pobl angen ei wasanaethau, tueddant i ddod o hyd iddo (mae'r ffaith i dros 500 o achwyniadau ynghylch gwasanaethau BIPAB gael eu trin mewn blwyddyn yn dystiolaeth o hyn). Yn ychwanegol, eglurwyd bod gan y CIC 42 o aelodau (10 yn byw yn Sir Fynwy) a disgwylir iddynt ymgysylltu â'r cyhoedd fel rhan o'u swyddogaeth. Mae rhestr o ddigwyddiadau dros y flwyddyn i annog rhyngweithiad mewn e.e. fforymau lleol, clybiau cinio ayyb.

Cadarnhawyd bod cyfarfodydd chwarterol CIC yn agored i'r cyhoedd a chânt eu hysbysebu i gymell pobl i fynychu. Ychwanegwyd bod llefydd gwag ar hyn o bryd a chroesewir aelodau newydd.

Gofynnodd Aelod i ba raddau roedd y CIC yn effeithiol wrth ymdrin â phryderon cleifion (e.e. oriau meddygfa Meddyg Teulu, practisau gwag, cyflenwi y tu allan i oriau) a beth ellir ei wneud mewn gwirionedd. Mewn ymateb, eglurwyd, pan fydd CIC yn ymwybodol o broblemau, gall

wneud argymhellion i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a fydd yn darparu cynllun gweithredu i ddatrys y problemau a godwyd. Cadarnhawyd bod cynaliadwyedd Meddygon Teulu'n broblem fawr a bod y CIC yn bresennol mewn cyfarfodydd panel mynych gyda Gofal Sylfaenol ac yn eistedd yn annibynnol ar y pwyllgor meddygol lleol i sicrhau bod prosesau teg mewn perthynas â'r materion hyn. Ychwanegwyd bod arolwg mynediad Meddygon Teulu ar gael ar lein a gallai rhai ymatebion arwain at ymchwilio pellach ac ymgysylltu gyda chleifion.

Awgrymodd Aelod y gellid darparu clinig iechyd misol ym marchnad da byw Rhaglan ar gyfer asesiad iechyd sylfaenol. Cytunwyd y byddai'r CIC yn trosglwyddo'r awgrym hwn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Nodwyd bod y CIC yn dal swyddogaeth o gefnogi pobl ag achwyniadau ynghylch gwasanaethau BIPAB. Dywedwyd bod rhai cleifion yn ei chael yn anodd gwneud cwynion, ac ychwanegwyd bod y CIC yn rhy agos i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan felly nid oedd pwynt achwyn. Cyfeiriodd yr Aelod ymhellach at ymchwil a wnaed yn flaenorol gan y CIC ar amserau aros mewn clinigau ysbyty gan gwestiynu safon y gwaith.

Mewn ymateb, cadarnhawyd bod y CIC yn sefydliad statudol annibynnol. Cydnabuwyd bod angen parhaus i arddangos annibyniaeth y CIC gan roddi'r esiampl bod yr enw'i hun yn peri dryswch. Cydnabyddir y ffaith ar draws Cymru ac mae dan ystyriaeth ar hyn o bryd. Eglurwyd bod gan y CIC swyddogaeth cyfaill beirniadol a bod BIPAB yn cymryd sylw o'r materion a godwyd ac yn mynd i'r afael â phryderon yn unol â hynny. Eglurwyd sut caiff achwyniadau eu gwneud a'r gefnogaeth a ddarperir gan bedwar eiriolwr a fydd yn llywio'r claf drwy'r broses. Pwysleisiwyd na fydd yr eiriolwyr, fodd bynnag, yn cynnig barn ar yr achwyniad. Os yw'r unigolyn yn anhapus â'r canlyniad, oddi wrth Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, cefnogir y claf i fynd â'r mater ymellach at yr Ombwdsman.

Cytunwyd y caiff yr ymholiad ynghylch ymchwil ei ystyried y tu allan i'r cyfarfod a rhoddwyd sicrwydd y caiff ymchwil a phrosiectau'u cyflawni'n drwyadl.

Dywedodd Aelod bod angen mwy o gyhoeddusrwydd ar y CIC. Cytunwyd y byddai mwy o gyhoeddusrwydd yn fuddiol, yn enwedig ar gyfer swyddogaeth eiriolaeth. Cadarnhawyd bod tri Aelod etholedig yn aelodau o'r CIC. Maent yn gwneud ymweliadau ar ei ran a gallant hefyd gyfleu sylwadau i'r CIC. Adroddodd yr Aelod ar lwyddiant grwpiau cleifion sy'n cyfranogi yn ne'r sir a rhoddodd anogaeth i'r agwedd hon.

Cwestiynwyd paham nad yw rhai cyfarfodydd CIC yn agored i'r cyhoedd. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod cyfansoddiad y CIC yn unol â rheoliadau sy'n dynodi pa gyfarfodydd sy'n agored a'r rheiny nad ydynt. Awgrymwyd cael lefel uwch o graffu yng nghyfarfodydd y CIC (yn debyg i Bwyllgorau Dethol) er mwyn bod mewn sefyllfa well i ddal BIPAB i gyfrif.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod y CIC yn parhau i ymgysylltu â'r cyfryngau a bod ganddo aelodau Cyngor Tref a Chymuned. Mae'r CIC hefyd yn cymryd rhan mewn prosiectau cenedlaethol sydd wedi cynnwys offthalmoleg, plant a'r glasoed, dementia a gofal yr henoed.

Ymatebodd y Cadeirydd i gwestiwn gan Aelod bod cofnodion BIPAB Mehefin 2011 yn cyfeirio at gau'r Uned Mân Anafiadau yng Nghas-gwent ac roedd yn glir bod y CIC wedi cynghori nad oedd angen ymgynghoriad cyhoeddus. Ychwanegwyd, os yw'r CIC o ddifrif ynghylch cynnal trosolwg o wasanaethau yn yr ardal, dylai fod yn llai rhagfarnllyd a dylai ganolbwyntio ar anghenion poblogaethau. Awgrymwyd y dylai'r CIC ofyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, paham nad oedd dim wedi digwydd ers tynnu gwasanaethau'n ôl a phaham na fu cyfathrebu gyda thrigolion ynghylch beth i'w wneud petai rhywun yn dioddef o fân anafiadau.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 11eg Ebrill, 2017 at 2.00 pm**

Sylwadau'r Cadeirydd
Diolchodd i Brif Swyddog CIC am fynychu'r cyfarfod a chadarnhaodd fod ewyllys da i gynnal deialog rhwng y Pwyllgor Dethol Oedolion a'r CIC. Croesawodd y datblygiad o ymgysylltu parhaus mewn cyfarfodydd gyda'r Pwyllgor Dethol ar wahân neu gyda BIPAB.

Cydnabu'r Cadeirydd fod y CIC yn gweithio i ddatrys problemau cyfathrebu.

Cadarnhawyd y bydd aelodau etholedig yn hapus i weithio gyda'r CIC i alluogi safbwyntiau pobl unigol a safbwyntiau'r boblogaeth i gael eu cynrychioli. Cytunwyd bod aelodau etholedig angen gwybod beth oedd y ffordd orau i ddatblygu a gwella gwasanaethau ar gyfer dinasyddion Sir Fynwy.

**11. Adroddiad gan gynrychoilydd y Pwyllgor Dethol Oedolion ar Fforwm Iechyd a Llesiant Pobl Hŷn Carchar Brynbuga**

**Materion Allweddol**

Roedd Aelodau'r Pwyllgor Dethol wedi cynnal ymweliad defnyddiol â Charchar Brynbuga a chyn hynny roedd Aelod wedi mynychu cyfarfod o Fforwm Iechyd a Llesiant Personau Hŷn Carchar Brynbuga ac reodd wedi ysgrifennu adrodddiad i'w ystyried gan y Pwyllgor Dethol.

**Craffu Aelodau**
Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwnaeth yr Aelodau sylwadau:

Gwnaeth aelod sylwad bod carcharorion wedi dweud eu bod yn cael bywyd yn undonog am gyfnodau maith a chwestiynodd a oedd celf a chrefft ar gael. Eglurodd cynrychiolydd ar ran y Carchar fod nifer o wahanol weithgareddau a mentrau wedi cychwyn a'u bod wedi'u derbyn yn dda. Gobeithir y bydd diddordeb yn y gweithgareddau hyn yn cynyddu.
Eglurwyd, mewn ymateb i gwestiwn ynghylch clinigau arbenigol, bod BIPAB wedi cytuno i gyflwyno achos busnes ar gyfer clinig ffisiotherapi i gael ei ddarparu yn y carchar. Ychwanegwyd bod rhaglen ymwybyddiaeth ofalgar wedi dechrau ac mae'n profi'n boblogaidd, fel mae'r sesiynau ioga. Gobeithir hefyd gyflwyno sesiynau ym Mhrescoed. Eglurwyd bod y Carchar wedi buddsoddi mewn hyfforddiant ffrindiau gyda Recoup a threfnir hyfforddiant staff maes o law, ac ar gyfer carcharorion sy'n dymuno ymgymryd â'r swyddogaeth. Croesawyd y wybodaeth a ddarparwyd.

**Sylwadau'r Cadeirydd**
Diolchwyd i'r Aelod am ddarparu adroddiad clir ac adeiladol. Nodwyd yr ymddangosid bod cynnydd wedi'i wneud. Awgrymwyd bod pwysigrwydd y materion hyn yn haeddu'u cynnwys ar raglenni gwaith y dyfodol. Diolchwyd i gynrychiolydd y carchar am fynychu'r cyfarfod.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 11eg Ebrill, 2017 at 2.00 pm**

**12. Rhestr Weithredu**

Nodwyd y Rhestr Weithredu

**13. Pwyllgor Dethol Oedolion - Blaenraglen Gwaith**

Nodwyd bod ychydig eitemau na chawsant sylw yn ystod y flwyddyn a fydd yn cael eu hychwanegu i'r Flaenraglen Waith fel deilaog barhaus gyda BIPAB, craffu parhaus o wasanaethau strôc a chynnal deilaog gyda'r CIC. Bydd ymdrechion yn parhau i wahodd swyddogion perthnasol, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth i ddarparu'r persbectif llawnaf o bob pwnc a chyfarfodydd ystyrlon a pherthnasol.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Cadeirydd am ei waith rhagorol fel Cadeirydd y Pwyllgor, am ei wybodaeth a'i synnwyr digrifwch. Ymatebodd y Cadeirydd ei bod wedi bod yn fraint cael bod yn Gadeirydd y Pwyllgor. Diolchodd i'w Is-gadeirydd, y Cynghorydd R. Harris, i'r Aelodau ac i'r Aelodau Cyfetholedig. Diolchodd i Julie Boothroyd a thîm cyfan y Gwasanaethau Cymdeithasol a chroesawodd y gonestrwydd a ddangoswyd wrth ymchwilio a llunio gwasanaethau. Diolchodd i'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd am glerco'r cyfarfodydd a mynegodd ei werthfawrogiad arbennig i Hazel Ilett, y Rheolwr Craffu am ei chyfarwyddyd a chynllunio gwaith y Pwyllgor mewn modd digymar. Cydnabu Julie Boothroyd waith y Pwyllgor.

Mynegodd y Cynghorydd Sir P. Jones, yn ei swyddogaeth fel Cadeirydd, ei diolchiadau i Hazel Ilett a Richard Williams am eu gwaith gyda Phwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc.

Ymatebodd Aelodau'r Pwyllgor mewn cytundeb â'r sylwadau a wnaed.

**14. Rhaglen Waith y Cabinet a'r Cyngor**

Nodwyd Rhaglen Waith y Cabinet a'r Cyngor

**15. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

**The meeting ended at 4.00 pm**